**ADRAN 8**

## 8. Y PWYLLGOR SAFONAU

### CYFANSODDIAD

### 8.1 Aelodaeth

Mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys 9 o Aelodau. Mae ei Aelodaeth yn cynnwys:

8.1.1 5 o Aelodau "annibynnol", nad ydynt yn Gynghorwyr nac yn Swyddogion nac yn briod i Gynghorwyr na Swyddogion o'r Cyngor hwn neu unrhyw Awdurdod perthnasol arall fel y'i diffinnir gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, a benodwyd yn unol â'r weithdrefn a amlinellir yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd);

8.1.2 3 o Gynghorwyr heblaw am yr Arweinydd neu Aelod o'r Cabinet; a

8.1.3 1 Aelod o Gynghorau Cymuned.

### 8.2 Cyfnod yn y Swydd

8.2.1 Penodir Aelodau Annibynnol am gyfnod o bedair blynedd o leiaf ond dim mwy na chwe blynedd, a cheir eu hailbenodi am gyfnod olynol nad yw'n fwy na phedair blynedd.

8.2.2 Bydd gan Aelodau awdurdodau lleol sy'n Aelodau o'r Pwyllgor Safonau gyfnod yn y swydd o ddim mwy na phedair blynedd neu hyd nes yr etholiad llywodraeth leol cyffredin nesaf, pa un bynnag sydd fyrraf. Ceir eu hailbenodi am un cyfnod olynol arall.

### 8.3 Cworwm

Bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau yn gwneud cworwm dim ond pan fydd:

8.3.1 o leiaf 3 o Aelodau, gan gynnwys y Cadeirydd, yn bresennol; ac

8.3.2 o leiaf hanner yr Aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y Cadeirydd) yn Aelodau Annibynnol.

Er osgoi amheuaeth bydd presenoldeb yn cynnwys presenoldeb drwy ddarpariaeth electroneg sydd yn caniatáu i'r aelod glywed a siarad yn y cyfarfod.

1.1 Ni fydd unrhyw ddiffyg yn y ddarpariaeth dechnolegol (pa un ai yw hynny'n arwain at golli cysylltiad yn llwyr neu'n rhannol) yn annilysu unrhyw ran o'r trafodaethau nac yn amharu ar unrhyw bleidlais a gymerir. Caiff y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod os yw o'r farn fod hynny'n briodol.

### 8.4 Pleidleisio

Bydd gan Aelodau Annibynnol ac Aelodau Cynghorau Cymuned yr hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd.

### 8.5 Cadeirio'r Pwyllgor

8.5.1 Dim ond Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau a gaiff fod yn Gadeirydd.

8.5.2 Etholir y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gan Aelodau'r Pwyllgor Safonau am ba un bynnag o'r canlynol yw'r cyfnod byrraf:

(i) dim llai na phedair blynedd neu ddim mwy na chwe blynedd; neu

(ii) hyd nes bod cyfnod yr Aelod Annibynnol yn y swydd yn dod i ben.

## 8.6 Rôl a Swyddogaeth

Bydd gan y Pwyllgor Safonau y rolau a'r swyddogaethau canlynol:

8.6.1 hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig yr Awdurdod;

8.6.2 cynorthwyo'r Cynghorwyr a'r Aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau;

8.6.3 cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau;

8.6.4 monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau;

8.6.5 cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad Aelodau;

a'r swyddogaethau penodol yma—

8.6.6 monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor â'u dyletswyddau o dan adran 52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000;

8.6.7 cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny.

## 8.7 Rhaglen Waith

Bydd y Pwyllgor yn paratoi rhaglen waith, a fydd yn cael ei hadolygu a'i chymeradwyo ym mhob cyfarfod Pwyllgor.

## 8.8 Rheolau Gweithdrefnol a Thrafod

8.8.1 Bydd Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor yn Adran 4 yn berthnasol i gyfarfodydd Aelodau'r Pwyllgor Safonau.

8.8.2 Wrth ystyried ymddygiad Cynghorwyr unigol, bydd y gweithdrefnau a amlinellir yn Atodiad 2 i Adran 18 yn berthnasol.